Taflen Dwyllo 1

Help your teen to learn with Mike Gershon

# Cyflwyniad:
# Cefnogi eich Plentyn wrth iddo Dyfu

### Negeseuon Allweddol

Cofiwch y rheolau aur:

1. **Chi yw ased gorau eich plentyn.**
2. **Siaradwch efo'ch plentyn, ei ganmol, gwrando arno a chwarae efo fo.**
3. **Mae ymarfer yn allweddol er mwyn cofio, galw i gof a meistroli.**

Dyma'r sylfeini, sy'n tynnu ynghyd yr agweddau pwysicaf ar ddysgu pan fydd eich plentyn yn ei arddegau. Mae tri pheth syml y mae angen i chi eu cofio i helpu eich plentyn i ddysgu.

Felly byddwch yn hyderus i addasu a datblygu'r syniadau yn y cwrs fel eu bod nhw'n gweddu i'r ddau ohonoch chi. Edrychwch ar y cwrs fel man cychwyn. Cwrs y mae croeso i chi ei newid a'i addasu fel ei fod yn gweithio i chi.

A chofiwch, mae dysgu yn hwyl. Mae'n gyffrous.  Mae'n rhoi hwb, her a boddhad. Mae'n golygu gwthio ffiniau yr hyn allwn ni wneud, yr hyn a wyddom a'r hyn rydym ni'n ei ddeall. Mae'n golygu datblygu a thyfu. Mae'n golygu gwneud synnwyr o'r byd a'n hunain. Dyna rydych chi'n helpu eich plentyn i'w wneud, pob tro rydych chi'n ei helpu i ddysgu.

## Strategaethau, Gweithgareddau a Thechnegau

| | |
|---|---|
| **i. Dangos sut** | **Dangos i'ch plentyn sut i fynd i'r afael â phroblemau a heriau.** |
| **ii. Bod yn ansicr gyda'n gilydd** | **Helpu eich plentyn i deimlo'n gyfforddus efo ansicrwydd.** |
| **iii. Sgaffaldio gwaith cartref** | **Symleiddio gwaith cartref i'w wneud ychydig yn haws i'ch plentyn.** |
| **iv. 'Gallai'** | **Gwneud gwybodaeth yn amodol drwy newid strwythur eich cwestiynau.** |
| **v. Beth mae'r athrawes eisiau?** | **Arwain eich plentyn i feddwl o safbwynt yr athro.** |
| **vi. Meistr cwestiynau** | **Defnyddio gwahanol rolau cwestiynu wrth siarad efo'ch plentyn am ddysgu.** |

© Mike Gershon 2021. Cedwir Pob Hawl. Cyhoeddwyd o dan drwydded gan Gershon Learning Limited